

## Newid cyflwr prinder dŵr

Mae'r adnodd hwn yn rhan o becyn pwnc y **model atomig** lle byddwch yn dod o hyd i ragor o adnoddau i ymgorffori datblygiad sgiliau llythrennedd yn eich addysgu. Gallwch olygu'r holl ffeiliau cysylltiedig yn yr adnodd hwn i weddu i anghenion eich dysgwyr.

### Amcanion dysgu

- 1 Defnyddio strategaethau darllen gweithredol i'ch helpu i ddeall stori newyddion am wyddoniaeth.
- 2 Defnyddio'r eirfa i'ch helpu i ddeall geiriau anghyfarwydd.
- 3 Gwybod pa wybodaeth allweddol i chwilio amdani wrth ddarllen stori newyddion am wyddoniaeth.
- 4 Deall sut mae pobl yn ysgrifennu am wyddoniaeth yn wahanol, yn dibynnu ar eu cynulleidfaoedd.
- 5 Ar gyfer estyn – siarad yn hyderus am y stori newyddion am wyddoniaeth, gan ystyried eich cynulleidfa.

Mae cwestiynau 1–3 ar y daflen i fyfyrwyr yn cefnogi amcanion dysgu 1 a 2. Mae cwestiwn 6 yn cefnogi amcan dysgu 3. Mae cwestiynau 7–9 yn cefnogi amcan dysgu 4 ac mae'r dasg estyn 'Cyflwyno'r newyddion' yn cefnogi amcan dysgu 5.

### Cyflwyniad

Mae darllen am wyddoniaeth yn hanfodol er mwyn deall y byd o'n cwmpas a'r digwyddiadau a'r darganfyddiadau sy'n effeithio ar ein bywydau. Yn y dasg darllen a deall hon, bydd dysgwyr yn mynd ati i ymwneud â thestun syml am erthygl ymchwil.

Mae *Education in Chemistry* wedi casglu a chrynhai cyfoeth o straeon newyddion am ymchwil gwyddoniaeth (gweler [rsc.li/4jvfRU0](https://rsc.li/4jvfRU0)). Mae'r adnodd darllen a deall hwn yn seiliedig ar un o'r straeon hyn sy'n berthnasol i bwnc y **model atomig**. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys:

	<p><b>Tasg estyn</b></p> <p><b>The task</b></p> <p>In your group, prepare to present the science news to peers. You will have 5 minutes to prepare the news and 2 minutes to present it to the class.</p> <p>You have five minutes for the answer allow:</p> <p>Prepare notes to say something during the broadcast. You will have the following part in your group:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. reporter - introduce the story</li> <li>2. reporter - give more detail</li> <li>3. scientist - answer questions.</li> </ol> 	
<p><b>Taflen waith darllen a deall</b></p> <p>Crynodeb syml o erthygl ymchwil gyda chwestiynau i brofi dealltwriaeth a geirfa.</p>	<p><b>Sleidiau Cyflwyno'r newyddion</b></p> <p>Cyfarwyddiadau ar gyfer y dasg estyn, ynghyd ag awgrymiadau a chwestiynau myfyrio.</p>	<p><b>Sgript Cyflwyno'r newyddion</b></p> <p>Templed sgript i'r dysgwyr ysgrifennu ynddo mewn grwpiau, a thabl i fyfyrion ar gyflwyniadau'r dosbarth.</p>

**Gweithgaredd darllen a deall**

Mae rhifau llinellau ar destun y stori er mwyn i chi allu cyfeirio dysgwyr yn hawdd at rannau penodol o'r testun. Gellir analluogi'r rhain, rhagor o wybodaeth [bit.ly/4cHKkeW](https://bit.ly/4cHKkeW)

**Modelu darllen gweithredol**

Darllenwch y stori yn uchel gyda'ch dysgwyr a'u hannog drwy gydol y broses i ymwneud yn weithredol â'r testun. Gallwch ofyn:

- 'Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?'
- 'Sut byddech chi'n aralleirio'r hyn sydd newydd gael ei ddweud?'
- 'Beth yw testun y stori newyddion hon?'


Rhagor o wybodaeth: [rsc.li/4jqdF3A](https://rsc.li/4jqdF3A)

Ystyriwch ddefnyddio meddalwedd recordio neu chwarae'n ôl, er mwyn i'r dysgwyr allu gwrandao ar y testun ar ddyfais wrth iddynt ddarllen.

Mae cwestiwn 6 yn gofyn i'r dysgwyr ysgrifennu crynodeb o'r stori newyddion ar gyfer eu cyd-ddisgyblion. Gallwch weithio drwy'r cwestiwn hwn fel dosbarth yn gyntaf, cyn gofyn i'r dysgwyr dynnu'r wybodaeth angenrheidiol o'r testun yn annibynnol. Gallwch ofyn i'r dysgwyr farcio crynodebau eu cyd-ddysgywr.

**Geirfa o dermau perthnasol**

Mae'r eirfa wedi'i llenwi'n barod â geiriau o'r stori y gallai'r dysgwyr fod angen cymorth â hwy. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol yn argymhell blaenoriaethu addysgu termau haen 2 a haen 3, y mae dysgwyr yn llai tebygol o'u clywed neu eu darllen y tu allan i'w gwersi gwyddoniaeth. Rhagor o wybodaeth: [bit.ly/4imgii2](https://bit.ly/4imgii2)



Atgynhychwyd gyda chaniatâd Guilford Press, hawlfraint 2013

Mae'r geiriau sydd wedi'u rhestru mewn print trwm yn yr eirfa yn dermau allweddol ac maent yn gysylltiedig â'n hadnoddau cymorth ar gyfer termau allweddol ([rsc.li/3XTkheu](https://rsc.li/3XTkheu)). I roi mwy o her, tynnwch gofnodion allan neu golygwch hwy, ac yna gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio a llenwi'r eirfa.

### Adnoddau ategol

I ateb cwestiynau 7 ac 8, bydd angen i'r dysgwyr gael gweld y fersiwn hirach a mwy cymhleth o'r testun darllen a deall. Mae hwn ar gael i'w lawrlwytho a'i argraffu neu gellir ei weld ar-lein. Bydd angen i'r dysgwyr gael fersiwn wedi'i argraffu er mwyn ei anodi yng nghwestiwn 7. Gweler: Helpu ardaloedd sy'n dioddef sychder ([rsc.li/3MSjNk0](https://rsc.li/3MSjNk0)).

### Tasg estyn: cyflwyno'r newyddion

Dywedwch wrth y dysgwyr am gyflwyno'r stori newyddion gwyddoniaeth y maent wedi'i darllen fel eitem mewn rhaglen newyddion.

Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhoi un o dair rôl i bob un ohonynt – cyflwynydd newyddion, gohebydd, neu wyddonydd. Os oes mwy na thri dysgwr ym mhob grŵp, pennwch fwy nag un gwyddonydd. Mae'n bwysig bod pawb yn dweud rhywbeth yn ystod y cyflwyniad.

- Tafluniwch y sleidiau 'Cyflwyno'r newyddion' ar y bwrdd gwyn. Eglurwch y dasg (sleid 2) a rhowch allbrintiau i'r dysgwyr o'r hyn y mae angen i bob rôl ei wneud (sleidiau 3–5).
- Trafodwch y sleid sydd â'r teitl 'Sut beth yw cyflwyniad newyddion da?' (sleid 6) cyn gwahodd y grwpiau i wneud eu cyflwyniadau (caniatewch bum munud i bob grŵp).

- Rhowch y templed sgrïpt i'r dysgwyr a'u cyfarwyddo i fynd ati fel grŵp i baratoi'r hyn y maent eisiau ei ddweud yn y cyflwyniad. Bydd hyn yn cynnwys darllen y cyflwyniad yn y templed sgrïpt yn gyntaf, a gallwch wneud hyn fel dosbarth os oes angen. Fel canllaw bras, caniatewch tua 45 munud i'r dysgwyr baratoi.
- Dywedwch wrth y dysgwyr lenwi'r daflen adborth ar y templed sgrïpt tra bydd eu cyd-ddisgyblion yn cyflwyno. Ar ôl i bob grŵp wneud eu cyflwyniadau, gofynnwch am fyfyrddodau a gwnewch nodiadau o unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer y gweithgaredd siarad a gwrando nesaf.

Mae Fframwaith sgiliau llafaredd Oracy Cambridge yn rhoi rhagor o wybodaeth am sgiliau siarad a gwrando. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: [bit.ly/4jBaTEG](https://bit.ly/4jBaTEG)

## Metawybyddiaeth

Mae'r adnodd hwn yn cefnogi'r dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau metawybyddol mewn tri maes allweddol.

Agwedd	Syniadau ar gyfer awgrymiadau
Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cwestiwn 6 yn rhoi cyfres o awgrymiadau i'r dysgwyr i sgaffaldio eu crynodeb o'r stori newyddion am wyddoniaeth.</li> <li>• Mae cyflwyniad y sgrïpt 'cyflwyno'r newyddion' yn cynnwys cwestiynau i'r dysgwyr eu gofyn iddynt hwy eu hunain wrth gynllunio'r cyflwyniad, er enghraifft am gadw at yr amser.</li> </ul>
Monitro	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnwch gwestiynau i'r dysgwyr wrth ddarllen y testun yn uchel (gweler yr adran o'r enw 'modelu darllen gweithredol') i'w hannog i fonitro eu dealltwriaeth drwy gydol y dasg.</li> <li>• Mae'r cwestiynau sy'n profi dealltwriaeth yn annog y dysgwyr i asesu i ba raddau y mae'r strategaethau darllen gweithredol yn eu helpu i ddeall y testun, a pha strategaethau eraill y gallant eu defnyddio i'w helpu i ddeall.</li> </ul>
Gwerthuso	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnwch am adborth ar atebion i'r cwestiynau metawybyddol (yn y blychau coch) ac ewch ati fel dosbarth i lunio 'canllaw cyflym' ar strategaethau darllen. Edrychwch eto ar y canllaw cyflym hwn y tro nesaf y byddwch yn gwneud gweithgaredd darllen a deall.</li> <li>• Wedi iddo gael ei lenwi, defnyddiwch y tabl adborth i fyfrio fel dosbarth ar gryfderau'r cyflwyniadau a nodwch bethau i weithio arnynt y tro nesaf y byddwch yn gwneud gweithgaredd siarad a gwrando fel dosbarth.</li> </ul>

## Atebion enghreifftiol a chanllawiau

1. Mae'r gronynnau mewn nwy ar wasgar ac maent yn symud yn gyflym. Wrth i'r nwy gyddwyo mae'r gronynnau'n arafu ac yn symud yn nes at ei gilydd, gan drefnu eu hunain fel eu bod i gyd yn cyffwrdd â'i gilydd, ond yn dal i allu symud dros ei gilydd.
2. Gellid defnyddio crisialau mwy i gasglu dŵr o'r aer. Wrth i'r dŵr gyddwyo mewn sianeli, gellid ei gasglu mewn cynhwysydd i'w yfed neu ei ddefnyddio i ddyfrhau cynydu.
3.
  - (a) Cyddwyo – pan fydd nwy'n cael ei oeri, bydd egni'n cael ei drosglwyddo o'r nwy i'r ardal o amgylch y nwy a bydd y nwy'n troi'n hylif.
  - (b) Sychdarthu – pan fydd solid yn cael ei wresogi, yn cael mwy o egni ac yn troi'n nwy, heb droi'n hylif yn gyntaf.
  - (c) Prinder – sefyllfa lle nad yw'n hawdd dod o hyd i rywbeth neu ei gael.

Mae'r dysgwyr yn nodi i ba raddau y mae'r eirfa yn eu helpu. Gallwch ofyn i'r dysgwyr godi eu dwylo i gael syniad bras o'u hyder. Nodwch ymatebion y dysgwyr.

4.
  - (a) Geiriau gwyddonol: crisialau, cyddwyo, sychdarthu, organig, sychdarthau, nwy, gronynnau.  
Diben yr ymarfer hwn yw annog y dysgwyr i ystyried pa eiriau a allai fod yn anghyfarwydd sy'n ymwneud yn benodol â gwyddoniaeth neu gemeg, o'u cymharu â geiriau cyswllt, er enghraifft. Enghraifft yw'r rhestr uchod ac mae'n bosibl y bydd amrywiaeth yn yr atebion.
  - (b) Chwiliwch am ddealltwriaeth dda o brif neges y stori. Ateb enghreifftiol – dŵr, cyddwyo, crisialau, cynaeafu, prinder.

Mae'r dysgwyr yn nodi i ba raddau y mae rhoi cylch o amgylch geiriau yn eu helpu. Gallwch ofyn i'r dysgwyr godi eu dwylo i gael syniad bras o'u hyder. Nodwch ymatebion y dysgwyr.

Mae'r dysgwyr yn nodi pa mor hyderus ydynt wrth egluro'r stori. Gallwch ofyn i'r dysgwyr godi eu dwylo i gael syniad bras o'u hyder. Nodwch ymatebion y dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu strategaethau er budd y dosbarth.

Gall y sgorau y mae'r dysgwyr yn eu rhoi i'r technegau yng nghwestiynau 3 a 4, a'u hyder i egluro'r stori, lywio eich dull o gynnal gweithgareddau darllen a deall yn y dyfodol.

5. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn sgil darllen yr erthygl newyddion.
6. Atebion dangosol ar gyfer y crynodeb o'r stori.

- *Beth mae'r gwyddonwyr wedi'i ddarganfod? (Canfyddiadau)*

Bod dŵr yn gallu cyddwyo o'r aer ar grisialau.

- *Beth oedd y broblem roeddent yn ceisio ei datrys? (Cyd-destun)*

Mynd i'r afael â diffyg dŵr mewn diffeithdiroedd neu ardaloedd lle bu tarfu ar y cyflenwad dŵr arferol neu lle mae'r cyflenwad dŵr wedi cael ei halogi.

- *Pam mae eu darganfyddiad yn bwysig? (Perthnasedd/cymhwyso)*

Gallai ddarparu dŵr yfed i bobl sy'n byw mewn rhanbarthau poeth, neu ddŵr i'w ddefnyddio i ddyfrhau cynydu.

Mae newid hinsawdd yn golygu bod mwy o ardaloedd yn troi'n boeth a bod mwy o bobl yn dioddef yn sgil sychder.

Gellid defnyddio'r darganfyddiad hefyd mewn ardaloedd lle bu trychineb naturiol ac nad oes dŵr tap ar gael.

- *Ystyriwch i bwy y mae'n bwysig, a pha effaith y gallai ei chael arnynt. (Effaith)*

Pobl ac anifeiliaid sy'n byw mewn ardaloedd lle nad oes cyflenwad dibynadwy o ddŵr yfed glân.

7. Dylai'r dysgwyr uwchleuo'r erthygl lawn mewn gwahanol liwiau gan ddefnyddio'r awgrymiadau. Gweler y testun sydd wedi'i uwchleuo isod fel enghraifft.

- *Beth mae'r gwyddonwyr wedi'i ddarganfod? (Canfyddiadau)*

- *Beth oedd y broblem roeddent yn ceisio ei datrys? (Cyd-destun)*

- *Pam mae eu darganfyddiad yn bwysig? (Perthnasedd/cymhwyso)*

- *Ystyriwch i bwy y mae'n bwysig, a pha effaith y gallai ei chael arnynt. (Effaith)*

## Gwyddoniaeth yn troi'r tapiau ymlaen mewn ardaloedd sydd wedi eu taro gan sychder

Erthygl wreiddiol gan Rebecca Trager. Addaswyd gan Nina Notman.

### Mae cynaeafu dŵr yn uniongyrchol o'r aer yn cynnig dull posibl a allai fynd i'r afael â phrinder dŵr a achosir gan newid hinsawdd

Mae gwyddonwyr wedi arsylwi dŵr yn cyddwyo'n ddigymell ac yn symud ar draws arwyneb crisial organig sy'n sychdarthu'n araf. Gallai'r canfyddiad hwn baratoi'r ffordd ar gyfer dull newydd o gasglu dŵr yfed o'r aer mewn rhanbarthau cras.

Ar hyn o bryd, mae bron i ddwy ran o dair o boblogaeth y byd yn byw mewn rhanbarthau lle mae prinder dŵr cryw difrifol am o leiaf un mis bob blwyddyn. Bydd newid hinsawdd yn golygu bod sychder yn effeithio ar hyd yn oed mwy o bobl yn y dyfodol. Mae mwy a mwy o chwilio am atebion technegol i gyflenwi dŵr i'r rhai mewn angen.

### Sibrydion am sychdarthu

Mae ymchwilwyr yn arbennig o awyddus i ddatblygu offer er mwyn gallu manteisio ar gyflenwadau dŵr yn yr aer. Mae hwn yn adnodd helaeth, gyda sawl gwaith yn

fwy o ddŵr yn bodoli fel anwedd yn yr atmosffer na dŵr hylifol yn ein hafonydd ar unrhyw adeg benodol. Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Efrog Newydd Abu Dhabi yn yr Emiradau Arabaidd Unedig yn gobeithio y bydd eu harsylwadau'n arwain at ffordd newydd o gynaeafu anwedd dŵr.

Fe wnaeth y gwyddonwyr eu canfyddiadau wrth astudio arwyneb crisialau hecsaclorobensen, sy'n ffwngleiddiad sydd wedi ei wahardd ledled y byd. Fe wnaethant sylwi bod defnynnau dŵr yn cyddwyso ar arwyneb y crisialau. Fe wnaethant sylwi hefyd bod y defnynnau dŵr yn sbarduno'r hecsaclorobensen solet i gael ei drawsnewid yn anwedd yn araf – proses sy'n cael ei galw'n sychdarthu. Gwelodd y fîm fod y sychdarthu'n achosi i sianeli bach ffurfio ar arwyneb y crisial, a bod y defnynnau dŵr yn cael eu llywio ar hyd y sianeli hyn i un cyfeiriad.

'Canfuwyd bod y [symudiad cyfeiriadol] hwn yn cael ei achosi gan newidiadau yn lled sianeli bach dros amser,' nododd y fîm ymchwil yn ei bapur.

Mae'r fîm ymchwil yn awgrymu y gallai'r ffenomen hon, nas gwelwyd o'r blaen, ysbrydoli technolegau newydd ar gyfer casglu anwedd dŵr o'r aer nad oes arnynt angen trydan. Mae'r sefyllfaoedd lle gallai cynaeafu dŵr goddefol fod yn ddefnyddiol yn cynnwys gwaith adfer ar ôl trychinebau, pan fydd tarfu ar gyflenwadau dŵr yfed arferol neu lle cânt eu halogi, a gweithrediadau milwrol mewn lleoliadau anghysbell.

## 8.

- Mae'r erthygl yn hirach.
- Mae'n cynnwys rhagor o fanylion am y crisialau.
- Mae'n cynnwys dyfyniadau gan wyddonwyr.
- Mae'n rhoi enghreifftiau sy'n dangos pam roedd y gwaith ymchwil yn cael ei wneud ac ymhle y gallai fod yn ddefnyddiol
- Mae'n cynnwys is-benawdau.

9. Cadwch lygad am ymwybyddiaeth o fformatau ysgrifennu gwahanol a gwerthfawrogiad o'r ffaith bod gan wahanol gynulleidfaoedd wahanol anghenion neu ddiddordebau, er enghraifft:

- (a) fersiwn byrrach, dolenni at erthyglau diddorol eraill, neges allweddol ar y dechrau, lluniau neu glipiau fideo perthnasol;
- (b) fersiwn hirach, llawer o fanylion, gan gynnwys gwybodaeth am bwy wnaeth yr ymchwil a'u gwybodaeth gyswllt o bosibl;
- (c) symleiddio iaith gymhleth, lluniau i helpu pobl i ddeall.

**Sgript enghreifftiol ar gyfer Cyflwyno'r newyddion**

<b>Rôl</b>	<b>Beth i'w gyfathrebu</b>	<b>Sgript enghreifftiol</b>
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch y mater mewn un frawddeg.	Mae diffyg dŵr yn broblem mewn sawl rhan o'r byd.
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch y datrysiaid. Felly dywedwch yn gryno ei bod yn bosibl bod gwyddonwyr wedi datrys y broblem.	Mae gwyddonwyr wedi darganfod ffordd o gasglu dŵr o'r aer gan ddefnyddio crisialau.
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch eich cyd-ddisgybl sy'n ohebydd ac a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth.	Mae ein gohebydd (enw'r dysgwr) wedi bod yn ymchwilio.
Gohebydd	Siaradwch yn fanylach am y broblem a'i chyd-destun.	Mae dwy ran o dair o boblogaeth y byd yn byw mewn ardaloedd lle mae prinder dŵr croyw difrifol am o leiaf un mis bob blwyddyn. Gallai hyn gynyddu wrth i newid hinsawdd barhau i achosi i dymheredd y byd godi.
Gohebydd	Mewn un frawddeg, cyflwynwch y gwyddonydd/gwyddonwyr a dywedwch beth maent wedi'i wneud i ddatrys y broblem.	Dyma (enw'r dysgwr) i ddweud wrthym am ei waith yn cael dŵr o'r aer.
Gohebydd	Gofynnwch eich cwestiwn cyntaf i'r gwyddonydd, sef gofyn iddo egluro beth mae wedi'i ddarganfod.	Dywedwch wrthym beth wnaethoch chi a'ch fim ei ddarganfod?
Gwyddonydd	Atebwch y cwestiwn cyntaf.	Fe wnaethom sylwi bod defnyddiau dŵr yn cyddwyso ar arwyneb rhai o'r crisialau yr oeddem yn eu hastudio, ac yna'n achosi i'r crisialau sychdarthu, gan greu sianeli i'r dŵr gasglu ynddynt.
Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd pam mae'r darganfyddiad yn bwysig.	Pam mae'r darganfyddiad hwn mor bwysig?
Gwyddonydd	Eglurwch y gwahaniaeth y gallai'r gwaith ymchwil hwn ei wneud i bobl ac ymhle y gellid ei ddefnyddio.	Gallai ein galluogi ni i gasglu dŵr o'r aer heb ddefnyddio trydan. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd a allai fod wedi cael eu taro gan drychinebau naturiol, neu lle mae problemau tymor hir o ran cael gafael ar ddŵr croyw.
Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd beth mae angen iddo ei wneud neu ei ddarganfod nesaf, er mwyn symud y gwaith ymchwil ymlaen	Beth yw'r camau nesaf yn eich gwaith ymchwil?

	tuag at gael effaith go iawn ar bobl.	
Gwyddonydd	Dywedwch wrth y gohebydd beth arall sydd angen ei wneud neu ei ddarganfod er mwyn symud yn nes at sefyllfa lle mae'r darganfyddiad hwn yn cael effaith go iawn ar bobl.	Mae angen i ni weld a oes modd gwneud hyn ar raddfa fwy er mwyn tynnu llawer iawn o ddŵr o'r aer, ac a oes modd ei gasglu'n hawdd er mwyn i bobl allu ei yfed.  Hoffem wybod hefyd a yw hyn yn gweithio gyda chrisialau eraill hefyd.  Ac yn nes ymlaen, byddai angen i ni brofi unrhyw ddŵr sy'n cael ei ddal gan ddefnyddio'r dull hwn i wneud yn siŵr y byddai'n ddiogel i'w yfed neu ei ddefnyddio.
Gohebydd	Diolchwch i'r gwyddonydd.	Diolch o galon am eich amser heddiw.
Gwyddonydd	Cydnabyddwch y diolch.	Dim problem, diolch am fy ngwahodd i.
Cyflwynydd newyddion	Dywedwch rywbeth i ymateb i'r hyn y mae'r gwyddonydd a'r gohebydd wedi'i ddweud, sy'n adlewyrchu'r hyn y gallai eich cynulleidfa fod yn ei feddwl. Diolchwch i'r gohebydd. Bydd hyn yn dod â'r cyflwyniad i ben.	Diolch i'n gohebydd (enw'r dysgwr) am yr adroddiad hwnnw. Dyma dechneg newydd hynod o gyffrous a allai achub bywydau mewn ardaloedd sy'n wynebu sychder tymor hir neu argyfwng.

## Diolchiadau

Diagram haenau geirfa: Beck, Isabel L., Margaret G. McKeown, a Linda Kucan. *Bringing Words to Life: Robust Vocabulary Instruction*. Efrog Newydd: Guilford Press, 2013.